

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Datblygu Cymunedol Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybïe ar ddydd Mercher, Tachwedd 13^{eg}, 2019 am 6.30 yh.

Presennol

Cynghorwyr

I Rh. Llewelyn

D. Hopkins

Mrs C. Thomas

R.A. Davies

631.

Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

632.

Prosiectau ar gyfer 2020-21

a) Dywedodd y Clerc ei fod wedi derbyn nifer o geisiadau am brosiectau addas i'w cynnal yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Cytunwyd **argymell** i'r Cyngor bod y prosiectau a restrir isod yn cael eu hystyried fel rhan o'r Rhaglen Ddatblygu Cymunedol ar gyfer 2020-2021.

1. Darparu matiau blodau gwyllt – heolydd a pharciau
2. Plannu coed brodorol yn y parciau lle y mae lle i wneud hynny
3. Placiau noddi i nodi cefnogaeth y Cyngor o'r neuaddau a phrosiectau arwyddocaol.
4. Amnewid ffensys ym Mharciau Penygroes a Saron
5. Adolygiad llawn o'r meinciau ochr ffordd i weld pa rai sydd angen eu trwsio neu amnewid.

b) Trafodwyd prosiect yn cynnwys gosod mesurau diogelwch ar hyd Heol y Llew Du, ac **argymhellwyd** gofyn i Adran Priffyrdd y Cyngor Sir gynnal asesiad o'r traffig ar y safle. Gofynnwyd i'r Clerc ymgynhori â'r Cynghorwyr Sir sy'n cynrychioli'r ward fel eu bod yn gallu gwneud yr ymholiad cychwynnol.

c) Ystyriwyd cais oddiwrth Gymdeithas Neuadd Lesiant Cwmgwili am gefnogaeth ariannol i helpu gwneud gwelliannau strwythurol yn y neuadd. **Argymhellwyd** bod y gymdeithas lesiant yn cyflwyno cais cyflawn, yn cynnwys y costau llawn, i'w hystyried gan y Cyngor, ac i restru'r cyllidwyr eraill sy'n ran o'r cynllun a'r lefel o gefnogaeth a ofynnir amdano oddiwrth y Cyngor.

ch) Cynhelir, yn barhaol ac yn flynyddol, adolygiad llawn o'r meinciau ar ochr y ffordd ac yn y parciau.

d) Hefyd, **argymhellwyd** clustnodi £50,000 at ddiben cynnal a chadw ac atgyweirio'r parciau.

dd) Ystyriwyd gosod cafnau blodau mewn rhai lleoliadau, ond ni argymhellwyd hyn fel prosiect. Cytunwyd bod buddsoddi ymhellach mewn darparu blodau gwyllt, a plannu coed brodorol, yn well i'n bioamrywiaeth lleol.

e) Ystyriwyd gosod arwyddion ar y priffyrdd i ddangos bod parc yn y cyffiniau, ond ni argymhellwyd hyn fel prosiect.

f) Trafodwyd gosod pafin newydd ar hyd Heol Hendre yng Nghapel Hendre. Cytunwyd bod angen gwybodaeth bellach oddiwrth Cyngor Sir Caerfyrddin cyn ystyried hyn fel prosiect.

633.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.05 yh.